**Cofnodion cyfarfod Fforwm Derbyn Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Gwener, 1 Gorffennaf, 2022.**

**YN BRESENNOL:** Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant; y Cynghorydd Wyn Thomas (Cadeirydd), Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor; y Cynghorydd Endaf Edwards, Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu; Mike Carruthers, Pennaeth: Ysgol Gynradd Comins Coch; Jane Wyn, Pennaeth: Ysgol Bro Pedr; Dorian Pugh, Pennaeth: Ysgol Henry Richard; Mair Hughes, Pennaeth: Ysgol Penglais a Gary Davies, Rhiant-lywodraethwr: Ysgol Gynradd Ciliau Parc.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Cheryl Evans, Swyddog Derbyn Ysgolion; Chris Macey, Cyfrifydd y Gwasanaeth- Cefnogaeth i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol; Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd; Carol Thomas, Cyfieithydd a Rhidian Jones, Cyfieithydd.

(10.00am – 10.25am)

1. **Ymddiheuriadau**

i) Ymddiheurodd Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd; Carol Davies, Pennaeth: Ysgol Dyffryn Cledlyn; Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gymunedol Rhydypennau; Stephen Cooper, Rhiant-lywodraethwr: Ysgol Bro Pedr a Chris Evans, Rhiant-lywodraethwr: Ysgol Uwchradd Aberteifi am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

ii) Ymddiheurodd y Cynghorwyr Wyn Thomas (Cadeirydd) a Bryan Davies am adael y cyfarfod yn gynnar oherwydd ymrwymiadau eraill gyda'r Cyngor.

2. **Gweithdrefn**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb.

3. **Datgelu buddiannau personol**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

4. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2019**

**CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2019 yn rhai cywir.

5. **Materion yn codi o gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15 Hydref 2019**

Dim.

6. **Polisi Derbyn 2023-2024**

Cyflwynodd y Cadeirydd y drafft diweddaraf. Nodwyd, heblaw am Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant lle y dylid gwneud pob cais i'w Corff Llywodraethu, mai Awdurdod Lleol Ceredigion oedd yr Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir ac ysgolion Gwirfoddol a Reolir yn y sir. Roedd holl Ysgolion Uwchradd a Chanol Ceredigion yn gyfrifol am eu derbyniadau i'r 6$^{ed}$ dosbarth a dylid gwneud pob cais yn uniongyrchol i'r

dewis ysgol. Roedd Fforwm Derbyn Ceredigion yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod materion derbyn lleol.

Eglurodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant fod y Polisi Derbyn ar gyfer 2023-2024 wedi'i fabwysiadu drwy'r broses ddemocrataidd. Byddai unrhyw sylwadau gan benaethiaid neu lywodraethwyr ynghylch y Polisi Derbyn yn cael eu hystyried ar gyfer polisi 2024-2025.

Mewn ymateb i ymholiad y Cynghorydd Bryan Davies yn ymwneud â ffoaduriaid o Wcráin, esboniodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant fod addysg wedi'i rhoi i 84 o ddisgyblion mewn Canolfan Groeso o fewn yr awdurdod drwy Gynllun Uwch-Noddwr Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, roedd plant a leolwyd gyda theuluoedd trwy Gynllun Noddwyr Unigol a Theuluoedd Cartrefi i Wcráin yn mynychu Ysgol Bro Pedr, Ysgol Plascrug, Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant ac Ysgol Penglais. Roedd cyn-dderbyniadau ar gyfer pedair ysgol ychwanegol. Nodwyd nad oedd plant sy'n ffoaduriaid yn cael eu blaenoriaethu a'u bod yn destun polisi derbyn yr ysgol ac yn unol â hyn, gwrthodwyd dewis cyntaf plentyn oherwydd nifer derbyn yr ysgol. Roedd nifer y plant sy'n ffoaduriaid naill ai mewn ysgolion neu'n rhai cyn-derbyn yn llai na deg. Yn ogystal, roedd cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer y disgyblion gan y Swyddfa Gartref. Wrth i deuluoedd symud ymlaen o'r Ganolfan Groeso, byddai heriau i sicrhau bod pob plentyn yn cael gafael ar addysg.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

7. **Niferoedd Blwyddyn 7 – Medi 2022**
   Nodwyd bod yr holl ddisgyblion wedi'u derbyn i'w dewis cyntaf o ysgol ym mis Medi. Roedd lleoedd yn parhau ym mhob ysgol, er bod rhai yn agos at y nifer derbyn.

   **CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

8. **Niferoedd Blwyddyn Derbyn – Medi 2022**
   Nodwyd bod mwyafrif y disgyblion wedi'u derbyn i'w dewis cyntaf o ysgol gynradd. Roedd Ysgol Gynradd Aberaeron wedi cynyddu o 28 i 32 gan fod 2 ddisgybl wedi ennill apêl a 2 o Blant sy'n derbyn gofal wedi cael lle. Er nad oes dim lleoedd, nid yw'r rheoliadau sydd ar waith yn caniatáu i blant sy'n derbyn gofal gael eu gwrthod i le mewn ysgol. Roedd gan Ysgol Gynradd Ciliau Parc 1 disgybl yn fwy nag o leoedd ar ôl i riant ennill apêl.

   Mewn ymateb i ymholiad Endaf Edwards ynghylch Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid a oedd hefyd â mwy o ddisgyblion na lleoedd, eglurodd Swyddog Derbyn yr Ysgol na fu dim apeliadau. Yn dilyn trafodaethau gyda'r ysgol, roeddent yn fodlon derbyn disgyblion ychwanegol gan fod y flwyddyn uchod wedi bod o dan y nifer derbyn gosodedig a byddai'n ddosbarth cymysg. Roedd trafodaethau gydag ysgolion ynghylch eu hamgylchiadau yn arferol.

Eglurodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant fod deddfwriaeth ar waith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cyfyngu pob dosbarth babanod i 30 o ddisgyblion. Yn ogystal, os oedd plentyn yn mynychu meithrinfa o fewn yr ysgol, nid oedd yn cael ei dderbyn yn awtomatig ar gyfer addysg statudol yn yr un ysgol gan fod proses dderbyn ar wahân ar gyfer addysg amser llawn.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

*Cymerodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant yr awenau fel Cadeirydd gan fod y Cynghorydd Wyn Thomas wedi gorfod gadael oherwydd ymrwymiadau eraill y Cyngor.*

**9. Apeliadau Derbyn Ganol Flwyddyn 2021-2022**

Nodwyd gwybodaeth yn ymwneud ag Apeliadau Derbyn Canol Blwyddyn 2021–22. Roedd yr awdurdod addysg lleol wedi ennill 2 a cholli 6 apêl ar gyfer Ysgol Gynradd Aberaeron. O'r 4 apêl a gynhaliwyd yn ymwneud ag Ysgol Gynradd Plascrug, roedd yr awdurdod addysg lleol wedi ennill 1 a cholli 3. Collodd yr awdurdod addysg lleol 2 apêl ar gyfer Ysgol Gynradd Comins Coch.

Tynnodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant sylw at y ffaith bod aelodau annibynnol yn eistedd ar y panel derbyniadau.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

**10. Unrhyw fater arall**

Nododd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant y byddai pob disgybl mewn addysg amser llawn o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 2 yn cael prydau ysgol am ddim o fis Medi ymlaen. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru o ran cymhwystra ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad wrth symud ymlaen gan fod prydau ysgol am ddim wedi'u defnyddio fel procsi. Yr addewid gan Lywodraeth Cymru oedd y byddai pob disgybl mewn addysg gynradd yn cael prydau ysgol am ddim yn y dyfodol; roedd manylion pellach eto i'w cyhoeddi.

**11. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w ddosbarthu maes o law.